



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Gwybodaeth i Gleifion

### Stentio Colonig

### Yr Adran Radioleg

#### **Cyflwyniad**

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y driniaeth Stentio Colonig. Mae'n esbonio beth mae'r driniaeth yn ei gynnwys a'r risgiau posibl. Ni ddylai gymryd lle trafodaeth rhyngoch chi a'ch meddyg, ond gall fod yn fan cychwyn.

Os ydych chi'n cael Stent Colonig fel rhan o driniaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw, dylai fod gennych ddigon o amser i drafod y sefyllfa gyda'ch Meddyg Ymgynghorol a'r Radiolegydd a fydd yn gosod y stent. Dylech fod wedi cael esboniad digonol cyn i chi lofnodi'r ffurflen gydsynio.

#### **Beth yw Stent Colonig?**

Mae stent colonig yn diwb rhwyll sydd wedi'i wneud allan o aloiau metel sy'n ei alluogi i fod yn hyblyg a gwydn. Caiff ei osod ar draws rhan gul eich colon, heb ei chwyddo, ond mae wedi'i ddylunio i ehangu fel sbring unwaith y caiff ei ryddhau. Mae hyn yn creu tiwb gwag sy'n dal yr ardal gul ar agor ac a fydd, gobeithio, yn gwella eich symptomau.

#### **Pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad?**

Bydd y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am eich achos wedi cael trafodaeth gyda'r Radiolegydd.

#### **Pam fod angen Stent Colonig arnaf?**

Mae eich meddyg wedi awgrymu'r driniaeth hon gan fod eich colon wedi culhau neu gael ei flocio. Gall y culni hyn ei gwneud hi'n anodd i chi fynd i'r tŷ bach a gall achosi poen, chwyddo a chwydu. Unwaith y bydd y stent yn ei le, bydd yn aros yn eich coluddyn a bydd y symptomau hyn yn gwella. Gall hyn olygu na fydd angen llawdriniaeth.

#### **Ble fydd y driniaeth yn digwydd?**

Yn yr adran pelydr-x, mewn ystafell "sgrinio" arbennig sydd wedi'i haddasu ar gyfer y math hwn o driniaeth.

## **Sut dylwn i baratoi ar gyfer cael Stent Colonig?**

Bydd angen i chi fod yn glaf mewnol yn yr ysbyty a chael rhai profion gwaed arferol. Gofynnir i chi beidio â bwyta am bedair awr o flaen llaw, ond mae'n bosibl y gallwch yfed rhywfaint o ddŵr.

Gofynnir i chi wisgo gŵn ysbyty, a byddwch yn cael enema 'allolchi' cyn y driniaeth. Rhowch wybod i'ch meddyg os oes gennych unrhyw alergeddau, ac os ydych chi'n cymryd unrhyw rai o'r cyffuriau canlynol sy'n teneuo'r gwaed.

- ✚ Warfarin, Aspirin, Enoxaparin, Dalteparin, Tinzaparin, Bemiparin, Lepirudin, Fondaparinux, Danaparoid, Coumarins, Acenocoumarol, Phenindione, Bivalirudin, Argatroban, Dabigatran, Rivaroxaban, Clopidogrel, Dipyridamole, atalyddion GP IIb/IIIa, Abciximab, Eptifibatide, Tirofiban a Plasugrel.
- ✚ Bydd angen i'r Radiolegydd wybod os oes gennych annormaledd gwaedu etifeddol neu hanes o waedu annormal ar ôl mân driniaethau fel tynnu dant.

## **Beth sy'n digwydd wrth i Stent Colonig gael ei osod?**

Mae'n bosibl y bydd angen gosod nodwydd mewn gwythïen yn eich braich fel y gall y radiolegydd roi sedatif neu boen-laddwr i chi. Bydd dyfais fonitro hefyd yn cael ei gosod ar eich brest a'ch bys, a gallech gael ocsigen drwy diwbiau bach yn eich trwyn.

Bydd y radiolegydd yn cadw popeth mor lân â phosibl, a bydd yn gwisgo gŵn theatr a menig llawdriniaeth.

Byddwch yn gorwedd ar y bwrdd pelydr-x, ar eich ochr chwith fwy na thebyg.

Bydd colonosgop yn cael ei osod yn eich rectwm a'i symud o gwmpas eich colon er mwyn gweld y man cul. Bydd weiren denau'n cael ei phasio drwy'r colonosgop ac yna drwy ran gul eich coluddyn. Gan ddefnyddio'r weiren fel tywysydd, caiff y stent ei osod ar draws y man cul a'i sefydlogi. Defnyddir pelydrau-x i sicrhau ei fod yn ehangu yn y safle cywir. Yna caiff y weiren dywys a'r colonosgop eu tynnu o'ch coluddyn.

## **Beth yw manteision y driniaeth hon?**

Bydd y stent colonig yn lleddfu'r blocio yn eich coluddyn ac yn gwella symptomau fel poen, chwydu ac anhawster yn mynd i'r tŷ bach. Gallai olygu na fydd angen llawdriniaeth.

## **Beth yw'r risgiau?**

Mae'n bosibl na fydd y meddygon yn gallu gosod y stent am sawl rheswm.

Y brif risg o stentio colonig yw achosi rhwyg neu dwll yn y coluddyn. Mae hyn yn digwydd mewn llai na 5% o gleifion. Os bydd hyn yn digwydd, fel arfer bydd angen llawdriniaeth frys i dynnu'r rhan o'r coluddyn sydd wedi'i niweidio. Gallai fod angen gosod stoma.

Gall lleoli'r stent fod yn anodd oherwydd natur y man cul. Os na chaiff y stent ei leoli'n llwyddiannus bydd y driniaeth yn dod i ben. Efallai y caiff ei hailadrodd yn ddiweddarach neu efallai y bydd eich Meddyg Ymgynghorol yn trafod cynllun gwahanol gyda chi.

O bryd i'w gilydd gall y stent ddod yn rhydd ac efallai y bydd angen ei dynnu. Gall gael ei flocio dros amser a bydd angen llawdriniaeth neu ail-stentio.

## **Faint o amser fydd y broses yn cymryd?**

Mae pob claf yn wahanol, ac nid yw hi'n hawdd rhagweld pa mor gymhleth neu syml fydd y driniaeth. Yn gyffredinol, bydd y driniaeth yn cymryd tua hanner awr, ond gallech fod yn yr adran pelydr-x am tua awr i gyd.

## **Beth sy'n digwydd wedyn?**

Cewch eich cludo'n ôl i'ch ward a'ch gwely. Bydd nyrsys ar y ward yn cyflawni profion rheolaidd, fel cofnodi eich pwls a'ch pwysau gwaed, i sicrhau nad oes unrhyw broblemau.

Bydd gweithrediad eich coluddyn yn gwella dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf, ond weithiau argymhellir dos ddyddiol o garthydd meddalu i gadw'ch carthion yn feddal ac yn haws eu pasio.

Mae'r driniaeth hon yn ddiogel fel arfer, a chaiff ei chynnal heb unrhyw sgîl-ffeithiau sylweddol.

### **Ac yn olaf...**

Dylai rhai o'ch cwestiynau fod wedi cael eu hateb gan y daflen hon, ond cofiwch mai dim ond man cychwyn yw'r daflen i'r drafodaeth am eich triniaeth gyda'r meddygon sy'n gofalu amdanoch. Sicrhewch eich bod yn fodlon eich bod wedi cael digon o wybodaeth am y driniaeth cyn i chi lofnodi'r ffurflen gydsynio.

Ystyrir bod gosod stent colonig yn driniaeth ddiogel. Mae rhai risgiau bach cysylltiedig, ac er ei bod hi'n anodd dweud pa mor aml maent yn codi yn union, maent yn fân yn gyffredinol, ac nid ydynt yn digwydd yn aml iawn.

### **Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:-**

Nyrsys Radioleg ar:- 01633 234327

Adran Radioleg, Ysbyty Brenhinol Gwent

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English”.**